**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mehefin 2008**

**GWERTHUSO SWYDDI**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) a Ruth Simmons, Prif Swyddog Cynorthwyol (Datblygu Pobl a Sefydliadol)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Diben yr adroddiad yw hysbysu Aelodau o'r angen i ymgymryd ag ymarfer gwerthuso swyddi. Mae hyn yn cynnwys holl weithwyr yr Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi eu cyflogi ar amodau'r llyfr gwyrdd, sy'n cael eu hadnabod fel staff cefnogi fel arfer.

**2.** Bydd yr adroddiad yn gosod amserlen y prosiect a sut fydd yn cael ei adnoddi.

## Cyflwyniad

**3.** Yn 1997, roedd y Cytundeb Cenedlaethol yn gofyn i awdurdodau lleol adolygu eu trefniadau tâl lleol i gyflawni cyflogaeth statws sengl. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu strwythurau graddio teg, anwahaniaethol ar lefel lleol, i gyfuno cyn weithwyr APT&C a chyn weithwyr llaw. Dynodwyd mai'r ffordd orau i wneud hyn oedd trwy werthuso cyflogau. Fe ymgymerodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru adolygiad o'r fath yn 2000.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r adolygiad, gwasgarodd grŵp llywio gwerthuso swyddi ac oherwydd newidiadau yn naliwr y swydd dros y blynyddoedd, nid yw'r broses wedi ei chynnal a'r ansawdd wedi ei sicrhau.

**5.** Mae nifer o swyddi wedi newid yn arwyddocaol neu wedi eu disodli ers 2000 ac, mewn ymgynghoriad gyda'r cyrff cynrychiadol, penderfynwyd mai'r peth gorau fyddai ailwerthuso'r 135 o staff cefnogi er mwyn dangos tegwch i'n gweithwyr ac i sicrhau fod yr Awdurdod wedi ei amddiffyn o unrhyw honiadau tâl cyfartal yn y dyfodol.

**6.** Mae'r prosiect yn cael ei reoli gan swyddog cydraddoldeb a chwaraeodd rôl allweddol yn yr adolygiad gwreiddiol.

**7.** Mae gwerthuswr swydd llawn amser, profiadol, wedi cael ei gyflogi ar gytundeb dros dro am chwe mis. Ariannir y swydd drwy oedi recriwtio swydd diogelwch tân.

**8.** Oherwydd mai ymarfer ail werthuso yw hwn ar y cyfan, ni ddisgwylir newidiadau mawr mewn cyflogau, ond bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau fel rhan o'r broses gyllideb yn yr Hydref.

**9.** Cyrhaeddwyd cytundeb gyda'r cyrff cynrychiadol y bydd unrhyw godiad mewn cyflog yn cychwyn ar 1af Ebrill 2009 a bydd polisi diogelu cyflog ar gyfer unrhyw ostyngiad mewn cyflog.

**Canlyniad**

**10.** Gofynnir i'r aelodau nodi'r rhesymau pam ei bod hi'n bwysig ymgymryd â'r ymarfer gwerthuso swyddi er mwyn gallu adrodd unrhyw oblygiadau ariannol iddynt cyn gynted ag y maent ar gael.